**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA(4)-27-14**

**CLA457 - Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ("y Ddeddf") a gwnaed y Gorchymyn hwn o dan adrannau 9 ac 16 o'r Ddeddf. Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr o is-ddeddfau y caiff y mathau perthnasol o awdurdodau eu gwneud heb eu cadarnhau, a hynny drwy ddiwygio Tabl 1 yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau y caiff is-ddeddfau oddi tanynt ddarparu ar gyfer hysbysiadau cosbau penodedig. Mae Erthygl 3 yn diwygio Tabl 2 yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf er mwyn gwneud hynny.

Nid yw'r adrannau o'r Ddeddf y bydd yr Atodlenni'n gymwys iddynt mewn grym ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor yn deall y bwriedir iddynt ddod i rym yn gynnar yn 2015, er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol baratoi at roi'r adrannau hynny ar waith gan wybod am holl gwmpas y pwerau y byddant yn gymwys iddynt.

**Gweithdrefn**: Cadarnhaol

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Mae'r Gorchymyn yn cyfeirio at amrywiaeth o Ddeddfau Lleol sy'n caniatáu i awdurdodau wneud is-ddeddfau. Mae paragraff 2 o'r Memorandwm

Esboniadol yn esbonio na fynegwyd unrhyw bryderon am hygyrchedd y Deddfau hynny yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y Gorchymyn hwn. Mae rhai ohonynt i'w gweld ar wefan legislation.gov.uk yr Archifau Cenedlaethol, ond nid yw pob un wedi'i nodi.

Mae'r Pwyllgor **yn argymell** bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Archifau Cenedlaethol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl Ddeddfau Lleol sy'n gymwys i Gymru i'w gweld ar y wefan hon, yn enwedig y rhai y cyfeirir atynt yn Neddfau Cyffredinol Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

[Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.]

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Hydref 2014

Ymateb y Llywodraeth

**Mae'r cynnig i ychwanegu at Atodlen 1 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 y pwerau i wneud is-ddeddfau yn y Deddfau lleol y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn yn ymateb i sylwadau a wnaed yn ystod proses graffu'r Cynulliad. Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad wrth i'r Cynulliad graffu ar y Bil, awgrymwyd y dylai Gweinidogion Cymru ystyried p'un a ddylid ychwanegu Deddfau eraill at Atodlen 1. Yn arbennig, dadleuodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe y dylid ychwanegu Deddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 at Atodlen 1, ac argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad y dylai'r Gweinidog ystyried gwneud hynny. Mewn ymateb i hynny, cytunodd y Gweinidog Llywodraeth Leol ar y pryd i ystyried ychwanegu Deddfau pellach at Atodlen 1 a chynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru adolygiad pellach o Ddeddfau lleol.**

Ymgynghorwyd ar y Gorchymyn drafft ei hun fel rhan o ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru a barhaodd am 12 wythnos, ac ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yr oedd cyrff llywodraeth leol a'r cyhoedd. Ni wnaeth yr un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fynegi unrhyw bryder am hygyrchedd y Deddfau lleol y mae'r Gorchymyn yn cyfeirio atynt. Bydd y Gorchymyn drafft ei hun, wrth gwrs, yr un mor hygyrch i'r cyhoedd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad ac a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r holl ddeddfwriaeth o 1988 ymlaen wedi ei gyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth cyn y dyddiad hwnnw. Ceir rhai eithriadau i hynny, fodd bynnag, ac mae'r broses hon wedi amlygu'r eithriadau hynny. Cyfrifoldeb yr Archifau Gwladol yn cyhoeddi deddfwriaeth, ond mae Gweinidogion Cymru yn derbyn yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r Archifau Gwladol, ynghyd ag awdurdodau lleol, i geisio sicrhau bod yr holl Ddeddfau lleol sy'n ymwneud ag ardaloedd yng Nghymru ar gael ar legislation.gov.uk (yn enwedig y rhai hynny y mae Deddfau Cyffredinol Cyhoeddus y Cynulliad yn cyfeirio atynt).